# Y CYNGOR DYDD IAU, 3 MAWRTH 2022

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Eric Merfyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Hefin Underwood, Catrin Wager, Cemlyn Williams, Elfed Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth), Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr - Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:** Eurig Huw Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) (ar gyfer eitem 7), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) (ar gyfer eitem 8), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid) (ar gyfer eitem 9), Rhion Glyn (Pennaeth Cynorthwyol – Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Hawis Jones (Rheolwr Tim Prosiectau Oedolion, Iechyd a Llesiant) (ar gyfer eitem 11), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol - Amgylchedd) a Rebeca Jones (Rheolwr Cynllunio – Polisi Cynllunio ar y Cyd) (ar gyfer eitem 12).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr:- Elwyn Jones, Dilwyn Lloyd, Eirwyn Williams a Gareth Williams.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr, 2021 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Swyddog Monitro fuddiant personol yn eitem 7 - Adolygiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor 2022/23, ar ran y prif swyddogion oedd yn bresennol, gan fod yr adroddiad yn ymwneud â'u cyflogau.

Roedd o'r farn bod gan y swyddogion fuddiant o sylwedd, ac ynghyd â'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Y Pennaeth Cyllid Statudol a'r Pennaeth Tai ac Eiddo, gadawodd y Swyddog Monitro'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem, gan nad oeddent angen bod yn

bresennol i gynghori. Arhosodd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol i mewn yn y cyfarfod i gynghori.

Gan gyfeirio at eitem 12 – Adroddiad Adolygu – Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, nododd y Swyddog Monitro fod ambell aelod o'r Cyngor ymhlith y sawl oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad, ond oherwydd natur yr adroddiad, a chan gymryd na fyddai trafodaeth benodol ar fanylion y cynllun, na chredai bod angen i unrhyw un ddatgan buddiant.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â theulu cyn-gadeirydd y Cyngor hwn, Evie Morgan Jones, a rhoddwyd teyrnged iddo gan y Cynghorydd Annwen Hughes.

Cydymdeimlwyd â'r canlynol hefyd:-

- Y Cynghorydd Menna Baines a'r teulu ar golli tad Menna.
- Y Cynghorydd Eirwyn Williams a'r teulu ar golli mam Eirwyn yn gant oed.
- Aelod Seneddol Dwyfor Meirionnydd, Liz Saville Roberts a'r teulu ar golli mam Liz.
- Teulu Aled Roberts, y Comisiynydd Iaith, a fu farw'n ddiweddar.

Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Rhoddwyd datganiad gan yr Arweinydd ar ran y Cyngor ar y sefyllfa yn Wcráin. Nododd:-

- Y dymunai ddatgan cefnogaeth y Cyngor i bobl Wcráin a'u hawl sylfaenol i benderfynu eu tynged eu hunain, heb gael eu gormesu drwy drais gan wladwriaeth unbeniaethol.
- Y byddai Cyngor Gwynedd yn barod i wneud ei ran i groesawu unrhyw ffoaduriaid a chynnig lloches iddynt yn ddiamod.
- Ei fod yn flin nad yw Llywodraeth San Steffan yn derbyn ffoaduriaid yn ddiamod fel mae gwleydd eraill Ewrop wedi gwneud, a bod eu hagwedd yn ddidrugaredd a chreulon.
- Iddo fod mewn cyfarfod y diwrnod cynt rhwng arweinyddion cynghorau Cymru a Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o fudiadau gwirfoddol, a bod o gwaith o gydlynu a pharatoi yn mynd rhagddo.
- Bod pobl Gwynedd yn awyddus i helpu ymhob ffordd bosib', ac y byddai'r Cyngor yn gwneud ei orau i roi arweiniad a chymorth ble gallai.
- Y byddai cysylltiadau a argymhellir gan y Llywodraeth o ran cynorthwyo a gwneud cyfraniadau yn cael eu rhannu gyda'r aelodau maes o law.

Nododd yr Arweinydd ymhellach iddo dderbyn cwestiwn ynglŷn ag unrhyw gysylltiad masnachol gyda chwmnïau o Rwsia, ac yn benodol ynglŷn â buddsoddiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd. Eglurodd fod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi trwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru, a bod datganiad a baratowyd gan y bartneriaeth honno yn nodi:-

*"Mae cyfanswm ein cysylltiad â Buddsoddiadau Rwsiaidd yn fach iawn ac yn llai nag 1%. Er hynny, yng ngoleuni'r digwyddiadau ofnadwy yr ydym wedi'u gweld a'r sancsiynau economaidd a osodwyd yn rhyngwladol, rydym wedi penderfynu'n gyfunol y dylid dadfuddsoddi o'r daliannau hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.*

*O ystyried yr amgylchiadau, nid ydym yn credu bod ymwneud â'r cwmnïau hyn yn opsiwn posibl."*

Nododd yr Arweinydd ymhellach mai'r drasiedi fawr yn yr achos yma oedd bod perthynas agos a chyfeillgar yn bodoli rhwng pobl Wcráin a phobl Rwsia, a'i bod yn bwysig sylweddoli fod pobl Rwsia yn dioddef hefyd, ac nad eu rhyfel hwy oedd hwn. Ychwanegodd yr edmygid dewrder y sawl sy'n barod i fynegi eu gwrthwynebiad i'r rhyfel yma yn wyneb erledigaeth lem, a mawr obeithid y byddai'r trafodaethau'n parhau, ac y deuai heddwch maes o law.

Nododd y Cadeirydd, ar drothwy etholiadau lleol 2022, bod 22 arweinydd cynghorau Cymru wedi cymeradwyo datganiad ynglŷn â chynnal yr ymgyrch etholiadol, oedd yn galw ar bleidiau ac ymgeiswyr i ymrwymo i ymgyrchu mewn modd sydd yn deg a pharchus. Eglurwyd bod yr adroddiad "Addewid Ymgyrch Deg" i'w weld ar fewnrwyd yr Aelodau, ac y byddai pob aelod yn derbyn linc iddo.

Nododd y Cadeirydd, gan mai hwn oedd y cyfarfod olaf o'r Cyngor llawn cyn yr etholiadau, yr hoffai ddymuno'n dda i bawb o'r aelodau fyddai'n sefyll etholiad, a hefyd i'r aelodau hynny oedd wedi penderfynu peidio sefyll etholiad, gan ddiolch i bawb am eu cydweithrediad dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Nododd hefyd, fel un na fyddai'n ail-sefyll, ei bod yn dristwch ganddo fod y cyfarfod olaf hwn o'r Cyngor yn digwydd yn rhithiol, gydag aelodau'n methu ffarwelio â chyfeillion roeddent wedi cydweithio â hwy dros y blynyddoedd, a mynegodd ei obaith y byddai'r Siambr yn llawn unwaith eto yn dilyn yr etholiad ym mis Mai.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 6. CWESTIYNAU

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn gan y Cynghorydd Aeron Maldwyn Jones

"Pa bryd mae'r Cyngor hwn yn rhagweld fydd staff yn ôl wrth eu desgiau?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Diolch i holl staff y Cyngor am eu gwaith yn ystod yr argyfwng. Mae'r cwestiwn yn gofyn pryd fydd y staff yn ôl wrth eu desgiau. Wrth gwrs, mae holl staff y Cyngor wedi parhau i weithio er lles pobl Gwynedd, er bod y ddesg weithiau mewn atig neu ar y bwrdd gegin. Mae'r ffordd mae'r staff wedi addasu ar fyr rybudd wedi bod yn anhygoel, ac rydw i'n hynod o ddiolchgar iddyn nhw. Mae yna lawer o waith wedi mynd i mewn i hyn, ac rydw i wedi cael y cyfle i adrodd i'r Cabinet, ac mae adroddiad wedi mynd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ond rydw i'n falch heddiw o'r cyfle i ail-adrodd i'r Cyngor llawn.

Mae yna gryn dipyn o sôn a sylw wedi'i roi i "fyd gwaith y dyfodol" ar lefel Cymru gyfan dros y flwyddyn ddiwethaf gyda Llywodraeth Cymru yn datgan nod o alluogi 30% o weithlu'r wlad i fedru gweithio yn agos at, neu o'u cartrefi.

Nid yw Cyngor Gwynedd yn wahanol i nifer o sefydliadau eraill yn ei gynllunio ar gyfer hyn. Mae yna "Grŵp Swyddfeydd" wedi'i sefydlu ers yn gynnar yn 2021, sy'n

cydlynu'r gwaith paratoi yn lleol, gyda'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr, y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a swyddogion adnoddau dynol, iechyd a diogelwch, technoleg gwybodaeth ac eiddo yn rhan o'r Grŵp hwnnw.

Mae'r weledigaeth ar gyfer gweithio i'r dyfodol o fewn y Cyngor wedi'i chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Chwefror a bu i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu'r cynnwys cyn hynny. Mae'r weledigaeth honno yn ffrwyth llafur y Grŵp Swyddfeydd, ond hefyd yn seiliedig ar ymgynghoriad efo gwahanol garfannau o staff y Cyngor yn ogystal â chynrychiolwyr yr undebau llafur yn lleol.

Nôd y weledigaeth yw bod y Cyngor yn darparu'r gwasanaethau gorau bosib' ar gyfer pobl Gwynedd, tra hefyd yn arddangos y Cyngor fel lle da i weithio, a thrwy hynny gadw a denu staff o safon.

Gyda'r datganiadau mwyaf diweddar gan Lywodraeth Cymru, a'r tebygolrwydd o lacio pellach ar y cyfyngiadau yn y dyfodol agos, mae'r amser i weithredu'r weledigaeth yn prysur agosáu ac mae'r Prif Weithredwr wedi rhannu amlinelliad o gynllun gweithredu efo staff, sef cynllun sy'n edrych i gael ei weithredu yn raddol, mewn tri cham, dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf, sef:-

- Caniatáu i'r holl weithwyr hynny sydd yn gorfod, neu'n dymuno, gweithio yn eu canolfannau gwaith gydol yr amser, wneud hynny oddi ar y 7fed o Fawrth,
- Cadarnhau trefniadau ar gyfer y gweithwyr hynny fydd yn gweithio o adra yn bennaf gyda golwg i gwblhau'r cam yma cyn gwyliau'r Pasg.
- Cytuno'n derfynol efo pob unigolyn, sydd wedi nodi dymuniad i weithio'n rhannol o adra ac yn rhannol o'r swyddfa, ar y trefniadau gwaith ar gyfer y naill leoliad a'r llall. Mae hyn yn debygol o fod yn gam gaiff ei gyflwyno dros gyfnod o amser gan gychwyn yn ffurfiol ar ôl y Pasg eleni."

**(2) Cwestiwn gan y Cynghorydd Kevin Morris Jones**

"Pâr: Gwesty Dolbadarn, Llanberis

Hoffwn wybod beth yw bwriad y Cyngor i ddelio gyda'r problemau sydd yn bodoli gyda newid defnydd yr adeilad yma. Mae'r cyn gwesty poblogaidd erbyn hyn ym mherchnogaeth dyn busnes o Firmingham (mae ganddo safle tebyg ym Mhwllheli). Mae'r gwesty yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pobl sy'n ddigartref. Er bod trigolion Llanberis yn falch o helpu ei gilydd a phobl o'r ardal o'u cwmpas, mae'n amlwg bod y safle yma - Dolbadarn - yn cael ei ddefnyddio i gartrefu pobl sydd â nifer fawr o broblemau yn eu bywydau ac mae hyn yn creu mwy o broblemau ym mhentref Llanberis. Yn anffodus mae'r digwyddiadau o ymddygiad gwrth cymdeithasol oddi fewn i'r gwesty a thu allan wedi golygu bod rhaid cael presenoldeb yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans yno yn aml.

Rwyf fi a thrigolion yr ardal yn deall bod rhaid cael safleoedd o'r math yn ein cymdeithas, ond mae'r safle hon yn rhy fawr i fod yng nghanol pentref bach fel Llanberis. Mae'r safle yn creu mwy o broblemau ac yn amharu yn negyddol ar bentref sydd yn dibynnu ar dwristiaeth bron trwy'r flwyddyn.

Rwyf wedi cysylltu â swyddogion y Cyngor ar y mater yma yn y gorffennol ond nid wyf wedi derbyn ymateb clir ac sy'n dderbyniol i bobl Llanberis."

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago**

"Rydym ni i gyd yn gwybod am yr argyfwng tai rydym ni'n wynebu ar hyn o bryd, ac mae digartrefedd yn elfen fawr iawn o'r broblem yna. Mae llai o dai ar gael i ni

weithredu yn sydyn i gartrefu pawb. Cyn Covid, roeddem ni fel Adran wedi cyflwyno Cynllun Digartrefedd, sy'n rhan o'n Cynllun Gweithredu Tai, ac yn hynny o beth, roeddem ni'n mynd i ddelio hefo'r sefyllfa fel ag yr oedd ar y pryd, a gwneud yn siŵr bod y cynllun yn dilyn y drefn, neu'r egwyddor, o gartrefu ein pobl ni yn eu cymunedau. Roedd yr hyn oedd yn digwydd gyda digartrefedd ar y pryd yn ad hoc, ac yn fy marn i, yn anaddas, a heb gefnogaeth ddigonol, ond dyna roedd y Cynllun Digartrefedd ei hun yn ei wneud - roedd yn dod â threfn i bob dim, ac yn gwneud yn siŵr bod yna ddigon o ddiogelwch a chefnogaeth, a gwneud yn siŵr ein bod ni'n cefnogi'r bobl yna.

Yn anffodus, fe ddaru Covid gicio i mewn, ac mae hynny wedi gwneud y sefyllfa yma hyd yn oed yn waeth, yn llawer iawn gwaeth nag yr oedd. Ar hyn o bryd, rydym ni'n sôn am dros 700 o bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddigartref yn y sir, a llawer mwy sydd ddim wedi cofrestru oherwydd eu bod yn rhy falch i wneud hynny. O'r bobl yna, mae 270 mewn gwely a brecwast a gwestai, fel yr un yn Llanberis, sydd ddim yn ddelfrydol o gwbl, i ni nac i'r trigolion na'r bobl sy'n ddigartref, ond fel Cyngor mae gennym ddyletswydd eang i edrych ar eu holau yn gyfreithiol ac yn foesol yn fy marn. Ond yr hyn sy'n bwysig ydi bod ni'n gwneud yn siŵr, lle bynnag rydym ni'n cartrefu pobl, bod y sefyllfa yn ddiogel, ac nad yw bywydau trigolion yn yr ardal yn gwaethygu oherwydd presenoldeb y bobl yna.

Gan hynny, cefais sioc o weld y cwestiwn yma. Rydym ni'n herio perfformiad yn y maes yma yn fisol, felly buaswn wedi disgwyl clywed am hyn cyn rŵan. Felly gofynnais i'r Adran edrych i mewn i hyn, a gwneud yn siŵr nad ydym wedi methu rhywbeth. Hoffwn ddweud hyn yn glir, rhag ofn bod yna drigolion yn gwylio, ac rydw i eisiau gwneud yn siŵr bod yr aelodau yn deall y sefyllfa yn y gwesty yna. Ym mis Mawrth, bu i ni gychwyn defnyddio'r gwesty i gartrefu pobl ddigartref. Nid ydym ni'n sôn o gwbl am y troseddwyr rhyw mae pobl yn sôn amdanynt, na'r pedoffilyddion mae pobl yn sôn amdanynt, na phobl sydd wedi gadael carchar. Nid ydym ni'n sôn am y bobl yna o gwbl. Rydym ni'n sôn am bobl rydym ni'n eu hadnabod - pobl sydd efallai wedi colli eu swyddi neu eu tai, ac sydd angen help, neu sydd wedi gwahanu oddi wrth eu partner.

Ym mis Mehefin y llynedd, clywsom gan yr aelod bod yna faterion yn codi, ac nad oedd y gymuned yn hapus gyda'r hyn oedd yn digwydd yna. Felly, aeth yr Adran ati ar unwaith i sicrhau bod 2 warchodydd diogelwch yn aros yn y gwesty dros nos rhwng 5yp a 6yb bob dydd, ac mae hynny wedi bod yn digwydd ers mis Mehefin er mwyn sicrhau nad oes yna unrhyw faterion yn codi o gwbl. Mae pobl yn gallu rhoi gwybod i'r Adran os oes problemau'n codi, ac nid ydym wedi cael unrhyw broblemau ers hynny. Mae'r Heddlu wedi mynd allan unwaith a'r Gwasanaeth Ambiwlans 2 waith. Yn y 2 achos pan fu'n rhaid galw ambiwlans, roedd trigolion wedi anafu neu'n gorfod mynd i ysbyty. Nid oedd a wnelo hynny â'u hymddygiad o gwbl. Hefyd, roedd yr Heddlu wedi gorfod mynd yna un waith oherwydd bod yna brotestwyr y tu allan i'r adeilad yn creu helynt ac yn sôn am droseddwyr rhyw, ond wrth gwrs, nid oedd yna droseddwyr rhyw yn y lle o gwbl. Mae yna gefnogaeth ddwys i'r bobl sydd yna. Rydym ni'n sôn am westy 35 ystafell, ac ar hyn o bryd, rydym ni'n defnyddio 15 ohonyn nhw. Mae 7 o'r preswylwyr yn ferched, a neb yn droseddwr rhyw nac wedi gadael carchar, a dim pedoffilyddion o gwbl.

Mae yna elfen arall yma - ydym ni'n cyfathrebu'n ddigon da hefo'r gymuned, hefo'r aelod? Mae'n rhywbeth sy'n cael ei godi'n aml iawn y dyddiau yma, y dyddiau Cofid, sef nad yw swyddogion y Cyngor yn ymateb yn ddigon sydyn i'r aelodau. Mae'n hynod bwysig eu bod nhw'n gwneud hynny oherwydd ni sy'n gweithredu fel y bont rhwng y gymuned a'r Cyngor, ac angen gwybod bod y trefniadau yn ddigon da i dawelu unrhyw faterion all godi. Rydw i wedi gofyn i'r Adran edrych i mewn i'r cyfathrebu gyda'r aelod, ac mae'n edrych i mi fel ein bod yn ymateb yn syth. Rydym

ni'n ymateb i'r problemau yn ysgrifenedig, ac os oes yna unrhyw broblemau'n codi, rydym ni'n ymateb. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion rydw i wedi gweld ar ddu a gwyn gan yr aelod yn diolch yn fawr iawn i'r swyddogion am eu hymateb sydyn, felly rydw i'n hapus gyda'r hyn mae'r Cyngor yn ei wneud i helpu ein pobl ni ac i reoli'r sefyllfaoedd. Rydw i'n hapus gyda'r hyn mae'r Adran yn ei wneud o ran cyfathrebu yn ddigon da hefo aelodau.

Wrth gwrs, yr hyn sy'n bwysig ydi - rydym ni'n sôn am broblem sy'n fy nychryn yn fawr iawn, ac mae'n gwbl anfoesol bod hyn yn digwydd yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Nid y Cyngor sy'n achosi'r digartrefedd o gwbl. Y cwbl rydym ni'n wneud ydi ceisio rheoli'r sefyllfa, sef sefyllfa sy'n gwaethygu'n ddyddiol. Os ydym ni eisiau pwyntio bys at unrhyw un, dylem bwyntio bys at y bobl yn San Steffan sy'n ein cosbi am nad ydym yn gyfoethog. Maen nhw'n dweud nad oes yna "magic money tree" i helpu ein pobl ni, ond wrth gwrs mae yna "magic money tree" pan mae'n dod i roi grantiau i'w mêts aeth i'r un ysgolion â hwy. Bu iddynt ddileu £9bn yn ddiweddar fel 'twyll' ar ran eu mêts hwy, ac mae'n bwysig cofio o ble mae'r broblem yn deillio, ac nid yw'n deillio o'r Cyngor. Rydw i eisiau i chi i gyd deimlo fel rydw i'n teimlo. Fel aelodau, rydym ni wedi sefyll oherwydd ein bod ni'n dymuno edrych ar ôl ac amddiffyn ein pobl - nid oherwydd yr arian. Rydym ni'n gwneud y gwaith oherwydd ein dymuniad i helpu ein pobl ni, ac rydw i eisiau gwneud yn siŵr eich bod chi'n teimlo fel mae'r Adran Tai a'r Uned Ddigartrefedd yn teimlo, achos rydym ni yma i edrych ar ôl ein pobl. Os ydi'r aelod yn cael unrhyw broblemau pellach, ac yn teimlo'n anhapus gyda'r ffordd mae'r Adran yn delio ag unrhyw beth, gofynnaf iddo gysylltu â mi yn uniongyrchol."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Kevin Morris Jones**

"Ydi Cyngor Gwynedd wedi bod yn rhoi cyn-garcharorion yn y gwesty yma dros dro?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, y Cynghorydd Craig ab Iago**

"Na, nac unrhyw bedoffilyddion na throseddwyr rhyw chwaith, ac nid ydym yn rhoi pobl sy'n gallu bod yn beryglus yng nghanol cymunedau. Rydym ni'n sôn am ein pobl ni, pobl Gwynedd, pobl sydd wedi digwydd taro ar gyfnod anodd yn eu bywydau, ac sydd angen cymorth. Dyma pam rydym ni yma, i helpu pobl Gwynedd i fyw yn eu cymunedau."

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Annwen Hughes**

"A fyddai'n bosib' i'r Arweinydd roi diweddariad i ni ar gynllun Ffordd Osgoi Llanbedr?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Fel y gŵyr pawb ohonoch, mae hwn yn fater sy'n agos iawn at galon yr aelod, ond yn agos iawn at fy nghalon innau hefyd. Fe gofiwch fod cynllun ffordd sylweddol yn ardal Llanbedr wedi'i wrth-droi gan Lywodraeth Cymru Mis Tachwedd y llynedd, o ganlyniad i adolygiad ffyrdd annibynnol, oedd yn awgrymu nifer o wendidau amgylcheddol ac economaidd yn y cynllun. Roedd dwy elfen i'r cynllun ffordd:-

- Ffordd osgoi i bentref Llanbedr, sydd yn gul iawn ei natur, gyda phont gul iawn yn y pentref, ac yn dioddef tagfeydd sylweddol iawn yn rheolaidd.
- Gwella mynediad i safle Canolfan Awyrofod Eryri sydd yn angenrheidiol i wireddu potensial llawn y safle, ac i greu swyddi o ansawdd yn y maes gofod ac awyrennau arloesol.

Fe wrthwynebodd Cyngor Gwynedd benderfyniad panel yr adolygiad ffyrdd yn frwd, gan fanylu ar restr hir o ddiffygion oddi fewn i'w hadroddiad terfynol. Fe yrrwyd llythyrau i weinidogion, gan gynnwys y Prif Weinidog, a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn y maes trafnidiaeth a'r economi, a hefyd fe fynychais i ddau gyfarfod cyhoeddus ym mhentref Llanbedr. Yn anffodus rydym bellach mewn sefyllfa lle, er na all Llywodraeth Cymru egluro'r diffygion yng ngwaith y panel adolygu, nid ydynt chwaith yn barod i ail-edrych ar y gwaith. Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chefnogi'r cynllun ffordd yn debygol o sefyll, ac mae hynny'n dristwch ac yn gam ar bobl Llanbedr yn wir.

Rhaid cofio fod y cynllun yn parhau i fod gyda chaniatâd cynllunio, ond fod penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â'i gefnogi'n ariannol wedi arwain at golli'r holl gyllid gweddilliol oedd ei angen i'w weithredu, ac mae hynny'n cynnwys £7.5m o gronfeydd Ewrop, ac mae'r rheini wedi'u colli'n llwyr i Gymru gyfan - maen nhw wedi mynd. Roedd hyn oherwydd tynnu nôl ar addewidion blaenorol o arian trafnidiaeth ac arian economaidd (oherwydd statws Ardal Fenter y Ganolfan Awyrofod).

Wrth symud ymlaen, byddwn yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i edrych sut bydd modd gwella'r fynedfa i'r Maes Awyr, ac maen nhw'n hynod o awyddus i wneud hynny. Mae'r Safle yn allweddol yn y Strategaeth Ofod sydd newydd gael ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae'n amlwg, felly, eu bod yn parhau i gefnogi datblygiad y Safle, ac mae gwella'r mynediad yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus nifer o argymhellion yr adroddiad. Fel rhan o'r gwaith o ail-edrych ar wella'r ffordd mynediad, rydym yn bwriadu sicrhau fod pob modd o drafnidiaeth yn cael ei ystyried, fel bod modd gwella'r cysylltiadau cerdded a beicio i'r dyfodol."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Annwen Hughes**

"Yn dilyn y newyddion bod yna gynllun newydd i lansio sector ofod, a fydd yna gynlluniau eraill yn cael eu rhoi ar y gweill i wella'r mynediad i'r maes awyr yn Llanbedr?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Mae'n galondid bod Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething, wedi cyhoeddi ei Strategaeth Ofod sy'n rhoi pwys mawr ar bosibiliadau yn Llanbedr, ac mae'r posibiliadau hynny yn bwysig iawn i ni, nid yn unig yn Llanbedr ei hun, ond ym Meirionnydd, ac ymhellach. Mae yna gyfleoedd am swyddi o safon uchel yn fan hyn. Mae'n rhyfedd, achos mae un gweinidog wedi gwrthod y cynllun. Mae'r Panel Annibynnol, gyda llaw, wedi honni nad yw'r safle yma a'r math yma o ddatblygiad yn addas ar gyfer ardaloedd gwledig, ac rydw i wedi tynnu sylw sawl gwaith at y bygythiad sydd yna i ddatblygiadau economaidd mewn ardaloedd gwledig, lle rydym ni wirioneddol angen y gwaith. Mae hwn yn rhoi rhywfaint o gysur i mi, ac yn rhoi rhywfaint o obaith i ni a dweud y gwir. Mae llaw chwith y Llywodraeth yn gwrthod; mae'r llaw dde eisiau gwneud rhywbeth, ac mi fyddaf, yn fuan iawn, yn trefnu cyfarfod gyda Gweinidog yr Economi a'i dîm, mae'n debyg, i drafod sut mae o'n bwriadu bwrw ymlaen â'i gynlluniau heb unrhyw fath o gynllun ffordd. Yn y cyfamser, mae ein swyddogion ni yn cydweithio gyda swyddogion Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen gydag astudiaethau angenrheidiol i weld oes yna unrhyw fath o ddatrysiad gwahanol i'w gael i'r ffordd yma. Rydych chi a fi yn adnabod yr ardal yn dda iawn, ac rydym ni'n gwybod nad oes dewis arall heblaw'r cynllun yma. Ond dyna fo - yn anffodus, bydd rhaid i ni fwrw ymlaen i gydweithio a gweld lle wnawn ni gyrraedd. Ond byddaf yn cael trafodaethau pellach gyda gweinidogion yn y cyfamser. Mae'n siomedig hefyd nad ydynt wedi gallu ateb ein cwestiynau, oedd yn gwestiynau penodol, ond rydym ni wedi cael cyfarfod hefo swyddogion, ac yn anffodus, dim ond

siarad y gwasanaeth sifil rydym ni'n ei gael - atebion sydd ddim yn atebion mewn difri'."

**(4) Cwestiwn gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Fe ddaru Llywodraeth Cymru roi £550,000 i Gyngor Gwynedd llynedd i ddatblygu llwybr beicio o Fethel i Gaernarfon. Mae Rhan 1 o'r llwybr hwn wedi'i gwblhau yn ddiweddar o Fethel i Dyddyn Hen, gyda diolch i'r Adran Drafnidiaeth am sicrhau gwaith o ansawdd uchel. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian pellach o £200,000 er mwyn cynllunio a datblygu'r 'Ail Ran' o'r llwybr, o Dyddyn Hen, Bethel i Gaernarfon. A ydi'r Aelod Cabinet yn gallu rhoi sicrwydd i mi fod hwn yn flaenoriaeth gan yr Adran Drafnidiaeth i gwblhau'r cynllun hwn o fewn o flwyddyn nesaf?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Griffith**

"Mae'r Adran wedi paratoi ateb cynhwysfawr i'r cwestiwn. Mae o wedi llithro rhywfaint fel mae'r aelod yn ymwybodol, ac rwy'n gwybod hefyd bod yr aelod wedi bod mewn cyswllt hefo'r Adran. Mae yna broses hefo prynu tir, ac ati, sy'n cymryd amser. Mae hynny wedi llithro rhywfaint, ond mae'r ateb heddiw hefyd yn sôn am gynlluniau eraill sydd gan yr Adran ar gyfer llwybrau tebyg ar hyd y sir. Er ei fod wedi llithro rhywfaint, rydym ni'n gobeithio y bydd yn cael ei gwblhau o fewn y cyfnod mae'r aelod yn sôn amdano."

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Sion Jones**

"Oes angen swyddog penodol i ddelio gyda theithio llesol yng Ngwynedd?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Griffiths**

"Mae hwn yn disgyn o fewn gwahanol adrannau, nid Amgylchedd yn unig. Mae'n bwynt da, ac yn rhywbeth sy'n codi'n aml. Efallai bod yna alw am rywbeth o'r fath, ac mi wnâi godi hyn hefo'r Adran."

**(5) Cwestiwn gan y Cynghorydd Judith Humphreys**

"Fel rhan o waith ac ymdrechion y Cyngor hwn i sicrhau cyfartaledd merched a dynion a'r ymrwymiad i weithio tuag at daclo trais yn erbyn merched, a fyddai'r Cyngor yn ystyried cymryd camau tuag at ennill achrediad Rhuban Gwyn? Byddai hyn yn ddatganiad clir o ymrwymiad y Cyngor."

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Diolch i'r aelod am ei gwaith yn hyrwyddo'r cynllun "Rhuban Gwyn" ac am bopeth mae'n wneud i hyrwyddo hawliau merched ar bob cyfle. Mudiad elusennol ydi "Rhuban Gwyn", sydd yn ymgyrchu i ddod a thrais gan ddynion yn erbyn merched i ben. Ei nôd yw i bob dyn gyflawni'r addewid Rhuban Gwyn, sef i beidio bod yn dreisgar yn erbyn merched ac i beidio esgusodi nac ychwaith i gadw'n ddistaw am drais yn erbyn merched.

Mae'r elusen yn ceisio bod yn gatalyst, trwy annog pobl, yn benodol bechgyn a dynion, i newid ymddygiad ple bo angen gyda'r pwyslais ar gymryd camau rhagweithiol a hyrwyddo cydraddoldeb a pharch.

Mae pob sefydliad yng ngwledydd Prydain yn gallu cael ei achredu gan "Rhuban Gwyn". Yn ôl yr elusen, mae sicrhau'r achrediad yn helpu sefydliad i:-

- Wneud gwahaniaeth yn eich cymunedau er mwyn dod a thrais yn erbyn merched i ben;
- Cynyddu gwybodaeth a sgiliau staff i gyfarch trais yn erbyn merched;
- Bod yn gyflogwr o ddewis

Mae'n bwysig nodi bod llawer o waith da eisoes yn cael ei gyflawni o fewn y Cyngor yn y cyd-destun yma gyda'r amodau gwaith ar gyfer staff yn cynnwys polisi trais yn y cartref (sydd yn nodi'r gefnogaeth sydd ar gael mewn sefyllfaoedd o'r math) tra bo swyddogion yn y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn gwneud llawer i godi ymwybyddiaeth a dwyn sylw i'r mater.

Mae swyddogion y Gwasanaeth Adnoddau Dynol eisoes wedi bod mewn cyswllt efo'r elusen i ddatgan diddordeb mewn cyflwyno cais am achrediad a hynny fel rhan o'r gwaith sydd wedi'i adnabod fel blaenoriaeth gorfforaethol yng Nghynllun y Cyngor, sef "Sicrhau Tegwch i Bawb".

Y bwriad yw cyflwyno'r cais ffurfiol ar gyfer achrediad yn ystod yr wythnosau nesaf ac os y'i cymeradwyir, i weithio efo'r elusen i sefydlu cynllun gwaith ar sail pedwar maen prawf penodol sef;

- Arweiniad strategol
- Gweithio efo dynion a bechgyn
- Newid Diwylliant
- Codi Ymwybyddiaeth

Bydd sicrhau achrediad yn y lle cyntaf ac yna sefydlu cynllun gwaith penodol, mewn cydweithrediad a'r elusen, yn arddangos yn glir ac yn gryf ein hymrwymiad fel Cyngor i wneud gwahaniaeth yn ein hymdrechion i ddod a thrais yn erbyn merched i ben."

**(6) Cwestiwn gan y Cynghorydd Angela Russell**

"Cyhoeddwyd Adroddiad Coleg Brenhinol y Llawfeddygon (Royal College of Surgeons) yn ddiweddar i wasanaethau VASCULAR Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Mi gollwyd gwasanaeth vascular yn Ysbyty Gwynedd yn 2019 a symudwyd y cyfan i Ysbyty Glan Clwyd. Collwyd gwasanaeth byd enwog am ei lwyddiannau yn Ysbyty Gwynedd a chollwyd hefyd llawfeddyg adnabyddus o lwyddiannus a phoblogaidd, sef Yr Athro Dean Williams.

Mae Adroddiad y Coleg Brenhinol yn rhoi stori ddychrynllyd am safon y gwasanaeth newydd yng Nglan Clwyd – mae'n adrodd am lefelau marwolaethau uchel (yr uchaf ym Mhrydain mewn sawl maes) a hefyd straeon am "amputations" di angen. Wrth ddarllen adroddiad y Coleg Brenhinol mae yn swnio fel gwasanaeth trydydd byd, nid gwasanaeth mewn un o wledydd cyfoethocaf y byd.

Rhwng 2019 pan ganolwyd y gwasanaeth yng Nglan Clwyd, a 2021, mi ysgrifennais gyfres o lythyrau, fel Arweinydd y Grŵp Annibynnol yng Ngwynedd, at Gadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd yn datgan pryder. Buom mewn cysylltiad hefyd efo'r Crwner ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar fwy nag un achlysur, ac ysgrifennais sawl llythyr i'r Daily Post i dynnu sylw at y mater.

Mae wedi cymryd dros DAIR BLYNEDD i'r Bwrdd Iechyd gydnabod fod 'na wendidau enfawr yn y gwasanaeth a bod 'na gleifion wedi dioddef yn gwbl ddiangen. Erbyn hyn

mae'r gwasanaeth mor ddychrynllyd nes y bydd Ysbyty Lerpwl yn goruchwylio gwaith y llawfeddygon.

Buddsoddwyd bron i £3m mewn theatr vascular newydd yng Nglan Clwyd a chyhoeddwyd fod gennym yng Ngogledd Cymru "state of the art theatre" .

Y gwir amdani yw nad yw teganau sgleiniog newydd ddim bob amser yn golygu y bydd gwasanaeth yn well. POBL sydd yn gwneud gwasanaeth da, pobl fel yr Athro Dean Williams, oedd efo'r profiad, y sgiliau, a'r arbenigedd gyda chleifion. Mae'r golled yn aruthrol ar ei ôl.

Ydi'r Cyngor yn cytuno y dylem ni gydweithio AR DRAWS PLEIDIAU GWLEIDYDDOL yn y Cyngor Sir yma er mwyn cefnogi a sicrhau gwasanaethau yn lleol yn Ysbyty Gwynedd?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Wrth gwrs rydw i'n cytuno 100% hefo'r aelod. Mae'r penderfyniad wnaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ôl yn 2017, rwy'n meddwl, yn anfaddeuol. Mae'r adroddiad rydym ni wedi dderbyn am y gwasanaeth yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddamniol a dweud y lleiaf, ac rwy'n sicr yn fodlon iawn dal i weithio ar draws ffiniau gwleidyddol hefo'r aelod, ac eraill, i drio cael y maen yna i'r wal. Mae yna lawer o bobl wedi bod yn gweithio yn ddygn iawn dros y blynyddoedd i drio tynnu sylw at hyn, ac rwyf yn bendant yn cytuno gyda'r aelod, ac yn barod i weithio."

**(7) Cwestiwn gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes**

"A yw Arweinydd Plaid Cymru yn cytuno gyda chynghorydd sydd yn cynrychioli ardal wledig mai'r cwbl mae ffermwyr yn wneud ydi pesgi ar arian cyhoeddus trwy eu bywyd?"

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Un cywiriad i'r cwestiwn i ddechrau rhag bod unrhyw gamargraff – nid ydw i yn Arweinydd Plaid Cymru – Arweinydd Cyngor Gwynedd ydw i, ac yn falch o hynny. Mae'r cwestiwn yma yn agos iawn iawn at fy nghalon ac mae'r ateb yn syml. Gallwn fod wedi ei ateb mewn un gair – Na. Nid ydw i'n cytuno gyda'r datganiad yna os oes sail iddo. Rwy'n credu mewn difri' bod yr awgrym yn sarhad ar sector sydd ar hyn o bryd dan fygythiad ar draws Cymru gyfan. Rydw i'n gwybod o brofiad personol o fod wedi gweithio yn y byd amaethyddol trwy fy oes. Mae amaethwyr yn gwneud cyfraniad allweddol i warchod a chynnal ein hamgylchedd, economi, diwylliant ac iaith ein cymunedau. Mae'r cyfraniad yma yn amhrisiadwy, ac yn cyfiawnhau gwerth buddsoddiad cyhoeddus. Ond mae'r newidiadau sydd yn wynebu'r sector a'r economi wledig yn sylweddol, a rhaid i ni fod yn effro i'r risgiau all drawsnewid gwead ein cymunedau gwledig.

Nid yw Llywodraeth y DG yn darparu'r holl arian sydd yn ddyledus i ariannu'r taliadau uniongyrchol i ffermwyr na'r cynlluniau datblygu gwledig yn dilyn gadael yr UE. Mae diffyg o £137 miliwn yn y flwyddyn ariannol bresennol o'r hyn sydd yn dod gan Lywodraeth y DG i Lywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi amaeth a datblygu gwledig. Mae hyn yn creu pryder gan nad yw'n ymddangos y bydd Cynllun Datblygu Gwledig newydd Llywodraeth Cymru i'r dyfodol yn ariannu'r math o weithgaredd i gefnogi'r economi leol welwyd dan y Cynllun Datblygu Gwledig Cymru o fewn yr UE, a bydd yn canolbwyntio o hyn allan ar gefnogi cynlluniau amgylcheddol. Mae pryder hefyd bydd y cynllun newydd sydd yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru - Cynllun Ffermio

Cynaliadwy - sydd yn cymryd lle'r Cynllun Tâl Sylfaenol o 2024/25 ymlaen, yn canolbwyntio gormod ar gefnogi ffermwyr i fod yn rhan o gynlluniau amgylcheddol a phlannu coed, yn hytrach na chynhyrchu bwyd. Gallwn weld sefyllfa o dan y polisi yma lle na fydd yn hyfyw i ffermwyr barhau i amaethu a bydd ein ffermydd yn cael eu prynu, fel y gwelwn yn barod, gan sefydliadau o du allan i Gymru fel buddsoddiad, a gall yr effaith ar ein cymunedau gwledig fod yn bellgyrhaeddol iawn. Mae'n allweddol fod ein polisïau i'r dyfodol yn ein galluogi i ymateb i'r bygythiad yn gadarnhaol."

**(8) Cwestiwn gan y Cynghorydd Elwyn Jones**

*(Gofynnwyd y cwestiwn gan y Cadeirydd yn absenoldeb y Cynghorydd Elwyn Jones)*

"Bu llawer o ymgyrchu dros y blynyddoedd, yn enwedig yn Ne'r Sir i ddiddymu codi tâl ar Ddisgyblion/Myfyrwyr dros 16 i fynychu Coleg neu ysgol. Ar gyfer cyllideb 2022-23 mae £260K wedi ei ddynodi ar gyfer gwneud hynny. Ar gychwyn 2021 hysbysebwyd am fidiau gan Wynedd am gontractau bysus ysgolion Arfon yn MYNNU fod rhaid cael bysus cymwys PSVA (Public Service Vehicle Access Regulation).

Un o'r rhesymau dros hynny oedd bod yna yn Arfon ddisgyblion Blwyddyn 12 a 13 yn talu am eu cludo i Ysgolion – h.y. yn talu am deithio (paying passengers) ac felly fel gwasanaeth bws.

Oherwydd prinder bysus o'r math roedd Adran Trafnidiaeth Llundain wedi gohirio dod â'r ddeddf i rym dwy neu dair gwaith - ac fel hyn mae ar hyn o bryd.

Serch hynny 'roedd Adran Trafnidiaeth Gwynedd yn mynnu (a gwn bod cwmni lleol wedi gorfod gwario yn sylweddol iawn i newid 5 bws). Oherwydd y gwariant sylweddol roedd cynnydd wrth gwrs ym mhrisiau cytundebau = costau uwch i Wynedd. Felly am 5 mlynedd, roedd Gwynedd yn ceisio cyfiawnhau'r mynnu drwy ddweud mai ar gyfer yr anabl oedd yr angen.

Cytunaf gant y cant, wrth gwrs bod rhaid cael cydraddoldeb, ond faint o'r disgyblion yma oedd yn dymuno teithio ar fws ysgol, tra'r oedd trefniant tacsi neu deulu yn bodoli.

Gai ofyn felly beth oedd y cynnydd yn y gost contractau bysus ysgolion Arfon o fynnu bod y bysus yn cydymffurfio a rheoliadau PSVAR o'i gymharu â'r hen gytundebau?"

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Griffith**

"Mae'r aelod wedi cysylltu â'r Adran ynglŷn â hyn cyn heddiw, ac wedi cael ateb. Rydw i wedi siarad hefo un o'i etholwyr sydd wedi cael ei effeithio gan hyn. Y sefyllfa ydi bod Llywodraeth San Steffan wedi dod â set o reolau i mewn, sy'n cynnwys y math o fysus sy'n rhaid i ni eu cael ym Mhrydain, ac yn dilyn hynny, mae'r Awdurdod yma wedi gorfod gofyn i gwmnïau dendro, ac i'r cwmnïau yna fod hefo'r bysus priodol. Rydw i'n gwybod bod hyn wedi bod yn ddrud i gwmnïau lleol, ond nid oes gennym ni ddewis yn y mater. Mae Llywodraeth San Steffan wedi gohirio'r penderfyniad i gychwyn gweithredu'r rheolau amryw o weithiau, er rydw i ar ddeall mai mis Mehefin yma mae'n cychwyn. Rydw i'n deall pryderon yr aelod, ac rydw i wedi siarad hefo o leiaf 2 gwmni lleol am y trafferthion roedden nhw wedi cael, ond mae gwraidd y peth wedi bod yn Llywodraeth San Steffan yn y dechrau felly."

**(9) Cwestiwn gan y Cynghorydd Gwynfor Owen**

“Mae goryrru yn boendod i lawer iawn o gymunedau, ac mae fy Ward innau, sef Harlech a Thalsarnau yn dioddef yn aruthrol o'r broblem. Mae'r Cyngor wedi cynnal arolwg o'r sefyllfa yn Harlech ac yn Nhalsarnau. Maent yn cydnabod bod problem yn bodoli a bod angen gwneud rhywbeth am y broblem, ond nid oes dim wedi ei wneud. Gofynnaf felly beth mae'r Cyngor am ei wneud ynglŷn â'r broblem yma mewn cymunedau ble mae arolygon y Cyngor eu hunain yn profi bod problem yn bodoli?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Griffiths**

“Mae’r Adran wedi gyrru ateb ysgrifenedig, ac fel mae hwnnw’n nodi, mae’r Adran yn ceisio gweithio hefo partneriaid i ddelio hefo problemau fel hyn, a hefyd wrthi’n rowlio allan dros y flwyddyn nesaf reolau y bydd Llywodraeth Cymru yn orfodi arnom hefo lonydd yn y sir, lle mae’r uchafswm cyflymder yn mynd i fod yn 20mya. Mae yna dipyn o waith yn mynd i mewn hefo hynny, a dyna ydi’r sefyllfa ar hyn o bryd.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Gwynfor Owen**

“Ar ôl llawer o swnian, cefais swyddog i gytuno i ymweld â’r safleoedd ym mis Medi a chafodd mesuryddion eu gosod gyda’r canlyniadau yn cael eu rhyddhau ym mis Hydref. Eto, mewn cyfarfod gyda’r swyddog mis diwethaf, dywedwyd wrthyf fod y Cyngor yn ystyried ymgynghori â’r gymuned tua mis Mehefin. Rydw i’n siŵr y byddai’r Aelod Cabinet yn cytuno hefo fi nad yw oedi fel hyn yn dderbyniol, ond beth all yr Adran ei wneud i gyflymu’r broses?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Griffiths**

“O ran cyflymu’r broses, mae hynny’n anodd iawn. Rydw i’n ymddiheuro eich bod wedi gorfod disgwyl gymaint o amser. Mae’n siŵr bod y cynghorwyr eraill yn cofio yn eithaf diweddar i Dafydd Wyn Williams, Pennaeth yr Adran, ysgrifennu atom i gyd yn egluro’r problemau mae’r Adran wedi cael, ac yn trio datrys gwahanol bethau - problemau staff, problemau newid mewn staff, salwch hir dymor - mae o i gyd wedi effeithio ar yr Adran, ac adrannau eraill o’r Awdurdod hefyd. Mae’r pandemig yn dal hefo ni, ac mae’r adrannau yn dal i drio delio hefo hynny, ond roedd Dafydd Wyn Williams wedi ysgrifennu at bawb yn ymddiheuro ac yn gofyn i bobl fod yn amyneddgar, ac fel rwy’n dweud, rwy’n siŵr ein bod ni i gyd fel cynghorwyr hefo’r un math o gwestiwn o ran goryrru yn ein wardiau ni. Mae’r Adran yn trio delio hefo pawb ydi’r ateb gonest gwir, ac yn stryglo i fedru delio hefo bob dim. Rydw i’n ymddiheuro am hynny, ond bydd yr Adran yn parhau i drio gweithio hefo pawb, a hefo cynghorwyr hefyd.”

## 7. ADOLYGIAD BLYNYDDOL – POLISI TÂL Y CYNGOR 2022-23

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion, y Cynghorydd Mair Rowlands, adroddiad yn argymell i’r Cyngor gymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu’r Polisi Tâl ar gyfer 2022/23.

Rhoddwyd cyfle i’r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Nododd aelod na ddeallai pam nad oedd Cyngor Gwynedd yn gwneud gofalwyr yn achos arbennig, gan ein bod yn colli staff o’r Adran Gofal. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod Llywodraeth Cymru wedi gosod allan ddyhead i weld gweithwyr gofal yn cael taliad sy’n cyfateb â’r cyflog byw. Byddai hynny’n digwydd yma yng Ngwynedd, a byddai uwchlaw lefel y cyflog byw petai’r cynnydd a ddisgwylir i’r cyflogau cenedlaethol ym mis Ebrill yn cael ei wireddu.

- Bod y rhan helaethaf o ofalwyr y Cyngor yn dilyn y cytundeb hir-ddisgwyliedig a gafwyd ddechrau'r wythnos hon ynglŷn â'r codiad cyflog cenedlaethol. Roedd y rhan helaethaf o'r gofalwyr ar gyflog o £9.99 yr awr, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill, 2021. Byddai trafodaethau yn cychwyn eto yn ystod mis Ebrill / Mai yn genedlaethol ar godiad cyflog 2022/23, ac roedd yna debygolrwydd cryf y byddai'r codiad cyflog y flwyddyn nesaf yn ganran uwch na'r hyn a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn sydd newydd fynd heibio. Golygai hynny y byddai'r gofalwyr yn sicr ar gyflog rhwng £10 a £10.50 yr awr, wedi ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill, 2022.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Polisi Tâl ar gyfer 2022/23.**

## 8. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-23: ADOLYGIAD 2022/23

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, adroddiad yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23: Adolygiad 2022/23 er mwyn ei weithredu yn ystod 2022/23.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes a'i dîm am eu gwaith arwrol wrth baratoi'r cynllun.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Croesawyd bwriad y Llywodraeth i ddarparu cinio am ddim i bob disgybl cynradd, ond holwyd a oedd yna gostau ychwanegol ynghlwm â hynny y byddai'n rhaid i'r Cyngor eu hysgwyddo. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y cynllun mor syml ag yr oedd yn ymddangos, ond hyd yma, bod yna ymrwymiad ariannol gan Lywodraeth Cymru i gyfarch y gost ychwanegol. Roedd trafodaethau'n digwydd rhwng pob cyngor a'r Llywodraeth er mwyn sefydlu faint yn union fyddai'r costau hynny. Eglurwyd bod y gost o ddarparu, neu dalu, am y cinio yn un elfen, a bod y gost o ddarparu adeiladau, gofod o fewn yr adeiladau hynny a gwasanaethau cefnogol, ayb, yn elfen ychwanegol nad oedd, o bosib', wedi'i llawn gostio ar hyn o bryd. Byddai mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r aelodau wrth i'r manylder ddatblygu, ond roedd y swyddogion yn eithaf ffyddiog ynglŷn â'r sefyllfa ar hyn o bryd. Nododd yr Arweinydd y byddai yntau'n pwyso'n arw ar y Llywodraeth i ariannu hyn yn llawn. Mewn ymateb i gwestiwn pellach ynglŷn ag effaith y cynllun ar gyllidebau ysgolion, nodwyd bod pawb yn sylweddoli bod y cynllun yn cael effaith sylweddol ar rai ysgolion, yn enwedig ysgolion mawr, ond cadarnhawyd bod hyn yn rhan o'r trafodaethau gyda'r Llywodraeth.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r cyfeiriad dan Flaenoriaeth Gwella 6 at roi blaenoriaeth i ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach wrth adnabod cyfleon am ddarpariaethau gofal, a phwysleisiwyd y dylai'r flaenoriaeth uchaf gael ei rhoi i ddarparu cartref gofal nyrsio ar safle Penrhos, gan nad oedd yna unrhyw welyau nyrsio ar ôl ym Mhen Llŷn bellach. Mewn ymateb, pwysleisiwyd nad oedd cystadleuaeth rhwng Meirionnydd a Phen Llŷn. Roedd yna gyfle gwych ym Mhenrhos i greu adnodd arbennig iawn fyddai'n cyfuno'r holl wasanaethau gofal a nyrsio ar un safle, a chadarnhawyd y byddai'r Cyngor yn parhau i bwyso a chydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd a'r gymdeithas dai i wireddu'r uchelgais yma.
- Gan gyfeirio at y bid (dan eitem 9 ar y rhaglen) i ddileu'r ffi o £300 am docyn teithio ôl-16, nodwyd bod rhieni yn Nwyfor a Meirionnydd (yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig) fu'n talu'r ffi yma dros y 10 mlynedd diwethaf wedi dioddef anghysondeb ac annhegwch enbyd, ac awgrymwyd bod y Cyngor wedi darganfod yr arian ychwanegol fel abwyd i rieni yn Arfon anfon eu plant i'r colegau. Mewn ymateb, nodwyd petai'r Cyngor yn cymeradwyo'r bid, y byddai diddymu'r tâl yn cynorthwyo

teuluoedd mewn cyfnod lle mae costau byw'n cynyddu'n sylweddol, ac hefyd yn gwella mynediad pobl ifanc i gyrsiau a gwell llwybrau gyrfaoedd. Eglurwyd hefyd y gwnaethpwyd y penderfyniad i godi ffi am docyn teithio ôl-16 flynyddoedd maith yn ôl gan gyngor gwahanol i'r Cyngor hwn, a hynny dan amodau ariannol gwahanol. Yn ffodus iawn eleni, cafwyd setliad oedd yn galluogi'r Cyngor i ystyried opsiynau gwahanol i'r hyn fu'n bosib' yn ystod y cyfnod o doriadau, ac un o'r opsiynau hynny oedd peidio codi ffi am docyn teithio ôl-16.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2022/23 er mwyn ei weithredu yn ystod 2022/23.**

## 9. CYLLIDEB 2022-23

Nododd y Cadeirydd, yn unol â'r Cyfansoddiad, bod rhaid i'r Pennaeth Cyllid dderbyn rhybudd o unrhyw welliant i'r gyllideb yn ysgrifenedig ymlaen llaw, a bod rhaid i'r gwelliant hwnnw arwain at gyllideb hafal, os am gael ei drafod. Roedd holl aelodau'r Cyngor wedi'u hatgoffa o hynny yr wythnos cynt, a gan na dderbyniodd y Pennaeth Cyllid unrhyw rhybudd o welliant erbyn yr amser cau dynodedig, ni fyddai modd i'r Cyngor ystyried unrhyw welliant i'r gyllideb.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas:-

- Adroddiad yn argymell cyllideb i'r Cyngor ei chymeradwyo ar gyfer 2022/23;
- Penderfyniad drafft y Dreth Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad y Cabinet i'r Cyngor (ar sail cynnydd o 2.95%) ynghyd â thablau yn dangos lefel y Dreth Cyngor a'r cynnydd fesul cymuned.

Atgoffodd y Pennaeth Cyllid yr aelodau o rai o'r prif risgiau yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a chadarnhaodd, wedi ystyried yr holl risgiau a'r camau lliniaru, ei fod o'r farn bod Cyllideb y Cyngor am 2022/23 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Holwyd faint yn llai fyddai'r cynnydd yn y Dreth Gyngor wedi bod pe na fyddai'r Cyngor wedi caniatáu 1 Mawrth fel diwrnod ychwanegol o wyliau i'r staff. Mewn ymateb, eglurwyd bod y gwariant ar ganiatáu gwyliau ar Ddydd Gŵyl Dewi yn wariant o'r flwyddyn ariannol gyfredol, ac fel yr eglurwyd wrth y Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, roedd wedi'i ariannu o danwariant mewn cyllidebau penodol corfforaethol. Eglurwyd mai bid untro oedd yr uchafswm o £200,000 a neilltuwyd ar gyfer hynny, gan na wnaed penderfyniad i ariannu gŵyl banc ar 1 Mawrth yn flynyddol. Gan hynny, ni fyddai wedi cael effaith o gwbl ar y gyllideb oedd gerbron y Cyngor.
- Nodwyd y gallai'r Cyngor fod wedi trosglwyddo cost y diwrnod ychwanegol o wyliau staff i'r flwyddyn ariannol nesaf er mwyn lleihau'r cynnydd yn y dreth, a holwyd faint fyddai £200,000 fel canran o'r dreth. Mewn ymateb, eglurwyd, yn fras, bod cynnydd (neu ostyngiad) o 1% yn y Dreth Gyngor yn gyfystyr â tua £800,000, felly byddai £200,000 tua 0.25%.
- Nodwyd bod pobl Gwynedd yn flin bod y Cyngor wedi caniatáu diwrnod ychwanegol o wyliau i'r staff, a bod amseriad hyn wedi bod yn warthus.
- Nodwyd, er y croesawid y ffaith bod arian ar gael i'w wario ar wahanol fidiau eleni, ei bod yn siom o'r mwyaf na chafodd y cynghorwyr cyffredin gyfle i bwyso a mesur y bidiau hynny mewn gweithdai tebyg i'r gweithdai toriadau yn y gorffennol, oherwydd y gallai mewnbwn yr aelodau fod wedi arwain at sefyllfa lle na fyddai'r Cyngor yn

edrych ar bleidleisio ar gynnydd treth o 2.95%. Mewn ymateb, nodwyd bod pob aelod o'r Cyngor wedi cael cyfle i ddod i'r seminarau ar y gyllideb, lle rhannwyd gwybodaeth am y bidiau.

- Dadleuwyd na fu cyfle i edrych yn iawn ar y bidiau yn y seminarau, ond yn hytrach bod yr aelodau wedi'u tywys drwy'r ffigurau.
- Nodwyd, er y croesawid cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y bydd taliad cymorth costau byw o £150 yn cael ei roi i bob aelwyd sy'n byw mewn eiddo yn y bandiau Treth Cyngor A-D, bod hynny'n amlygu nad yw'r system bresennol yn gweithio. Croesawid hefyd gyhoeddiad y Llywodraeth a Phlaid Cymru bod newid am fod yn y maes yma, a phwysleisiwyd y dylai hynny ddigwydd cyn gynted â phosib'.
- Awgrymwyd y dylid edrych ar ganiatáu mwy na 25% o ostyngiad Treth Cyngor i bersonau sengl gan ei bod yn llawer mwy anodd talu biliau pan fo un cyflog yn unig yn dod i'r tŷ.
- Nodwyd y byddai nyrsus, sydd wedi gweithio mor galed drwy gydol y pandemig, ond yn cael 2% o godiad cyflog eleni, tra bo cynghorwyr yn cael 16%, sy'n mynd i gostio tua £160,000 yn fwy i'r Cyngor. Mewn ymateb, eglurwyd mai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac nid y Cyngor, sy'n gyfrifol am bennu'r lwfansau sy'n daladwy i aelodau etholedig.
- Holwyd a fyddai'n bosib' defnyddio reserfau'r Cyngor am un flwyddyn er mwyn oedi cynyddu'r Dreth Gyngor. Mewn ymateb, eglurwyd bod £7m o falansau cyffredinol wedi'u rhoi o'r neilltu a chronfeydd eraill wedi'u creu at bwrpasau penodol. O ran y cronfeydd a roddwyd o'r neilltu, roedd £72m allan o'r £79m yna am resymau penodol ar gyfer y dyfodol. Eglurwyd nad oedd defnyddio ein cronfeydd i beidio cynyddu'r Dreth Gyngor yn ateb parhaol, a phe byddai'r Cyngor yn dechrau defnyddio reserfau wrth gefn i lenwi bylchau, byddai'r bwlch yna trwy'r amser.
- Holwyd a fyddai'n bosib' i ni fyw ar beth sydd gennym am flwyddyn, a gweld sut fydd pethau o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Mewn ymateb, nodwyd bod y Cyngor wedi cael setliad eithaf da eleni, ond y bydd setliad y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ganlynol yn anodd iawn.

Gwrthwynebwyd y cynnig i godi'r Dreth Cyngor 2.95% gan aelodau ar y sail:-

- Bod y Cyngor wedi codi'r dreth 40% dros y 10 mlynedd ddiwethaf, ond yn cynnig llai o wasanaethau na 10 mlynedd yn ôl.
- Bod y sefyllfa yn argyfyngus yng Ngwynedd, gyda chostau ynni, tanwydd a bwyd yn cynyddu fwy nag erioed, a niferoedd cynyddol yn dibynnu ar fanciau bwyd.
- Bod ffermwyr a busnesau cefn gwlad yn gweithio mor galed, ond yn cael dim cymorth o unman.
- Ein bod yn byw mewn tŵr ifori yng Nghyngor Gwynedd, ac efallai nad ydym yn llwyr werthfawrogi amgylchiadau pobl yn y sir.
- Y byddem wedi gobeithio y byddai cynnydd o tua 1% wedi bod yn ddigon eleni i gynnal y gwasanaethau gyda'r arian wrth gefn sydd gennym, er mwyn cyfleu'r neges ein bod yn poeni am sefyllfa ein trigolion.
- Nad dyma'r amser iawn i gynyddu'r dreth, yn enwedig gan fod pobl wedi bod trwy galedi'r pandemig, a byddai hyn yn creu mwy o straen a phoen meddwl i deuluoedd sy'n gweithio'n galed.

Cefnogwyd y cynnig gan aelodau eraill ar y sail:-

- Bod pawb wedi cael siawns i gyflwyno cynnig gwahanol ar gyllideb gytbwys, ond nad oedd neb wedi cynnig dim byd arall, nac wedi awgrymu lle y dylai'r Cyngor dorri er mwyn peidio codi'r dreth.
- Oni dderbynnid y cynnig, byddai'n rhaid torri mwy ar y gwasanaethau hanfodol i bobl bregus Gwynedd.

- Mai'r unig opsiwn oedd derbyn y gyllideb fel y mae fel bod pobl Gwynedd yn cael y gwasanaeth gorau y gellir ei gynnig iddynt o dan yr amgylchiadau.
- Nad system Cyngor Gwynedd oedd y system Dreth Gyngor, a bod pawb o'r aelodau yma i wella bywydau pobl y sir.
- Bod angen pwyntio bys at Lywodraeth San Steffan a galw am annibyniaeth i Gymru fel ein bod yn gallu rhedeg ein cyllideb ein hunain yn ein gwlad ein hunain.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd modd gwahanu'r argymhelliad ar sefydlu cyllideb oddi wrth yr argymhelliad ar sefydlu rhaglen gyfalaf. Eglurodd, petai'r naill argymhelliad yn disgyn, y byddai'r llall yn disgyn hefyd, gan fod y ddau fater yn cydblethu â'i gilydd.

I gloi, nododd yr Aelod Cabinet:-

- Er y cafwyd setliad gwell na'r disgwyl eleni, y daeth cydnabyddiaeth o'r seminarau a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bod gwasanaethau wedi bod dan bwysau, a dyna'r prif reswm pam na ellid argymell cynnydd llai yn y Dreth Gyngor.
- Ei fod yn poeni am amgylchiadau trigolion y sir a phwysleisiodd y dylai unrhyw un sy'n cael trafferth talu'r dreth gysylltu â'r Adran Gyllid.

Galwyd am bleidlais gofrestredig ar y cynnig.

Nododd y Cynghorydd Stephen Churchman ei fod newydd ddychwelyd i'r cyfarfod ar ôl bod allan am bron i awr, a gofynnodd a oedd ganddo hawl i bleidleisio. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro fod ganddo hawl i bleidleisio, cyn belled â'i fod yn hyderus ei fod yn ymwybodol o gynnwys yr adroddiad, ayb. Cadarnhaodd yr aelod ei fod wedi paratoi yn drylwyr cyn y cyfarfod.

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig:-

<u>O blaid</u> (36) Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, Elwyn Edwards, Aled Evans, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, R.Medwyn Hughes, Judith Humphreys, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Elin Walker Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Dewi Wyn Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson, Dyfrig Siencyn, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Cemlyn Williams a Gethin Glyn Williams.

<u>Yn erbyn</u> (30) – Y Cynghorwyr:- Dylan Bullard, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Aeron M.Jones, Anne Lloyd Jones, Eric Merfyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Sion Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Beth Lawton, Dewi Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, John Pughe Roberts, Angela Russell, Mike Stevens, Hefin Underwood, Elfed Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

<u>Atal</u> (0)

Nododd y Cadeirydd fod y cynnig wedi cario.

**PENDERFYNWYD**

**1. Cymeradwyo'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Cabinet, sef:-**

**(a) Sefydlu cyllideb o £295,232,820 ar gyfer 2022/23 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £213,210,400 a £82,022,420 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 2.95%.**

**(b) Sefydlu rhaglen gyfalaf o £59,074,980 yn 2022/23 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.**

**2. Nodi fod yr Aelod Cabinet dros Gyllid, drwy daflen benderfyniad dyddiedig 9 Tachwedd 2021, wedi cymeradwyo cyfrifiad y symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2022/23 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf"):-**

**(a) 53,715.10 yw'r swm a gyfrifwyd fel Sylfaen drethiannol Gwynedd yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Cyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Cyngor am y flwyddyn.**

**(b) Rhan o ardal y Cyngor – Sylfaen drethiannol Cymuned –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 571.25 | Llanddeiniolen | 1,840.10 |
| Aberdyfi | 1,095.65 | Llandderfel | 501.76 |
| Abergwyngregyn | 124.71 | Llanegryn | 164.55 |
| Abermaw (Barmouth) | 1,210.43 | Llanelltyd | 308.89 |
| Arthog | 654.41 | Llanengan | 2,289.52 |
| Y Bala | 781.39 | Llanfair | 335.58 |
| Bangor | 3,974.34 | Llanfihangel y Pennant | 232.58 |
| Beddgelert | 323.40 | Llanfrothen | 233.04 |
| Betws Garmon | 138.27 | Llangelynnin | 433.07 |
| Bethesda | 1,701.20 | Llangywer | 145.28 |
| Bontnewydd | 436.43 | Llanllechid | 348.06 |
| Botwnnog | 460.05 | Llanllyfni | 1,425.75 |
| Brithdir a Llanfachreth | 457.62 | Llannor | 906.33 |
| Bryncrug | 340.19 | Llanrug | 1,137.62 |
| Buan | 227.96 | Llanuwchllyn | 316.77 |
| Caernarfon | 3,640.35 | Llanwnda | 807.58 |
| Clynnog Fawr | 470.35 | Llanycil | 205.27 |
| Corris | 305.84 | Llanystumdwy | 885.48 |
| Criccieth | 972.85 | Maentwrog | 303.24 |
| Dolbenmaen | 624.58 | Mawddwy | 362.81 |
| Dolgellau | 1,275.63 | Nefyn | 1,535.07 |
| Dyffryn Ardudwy | 817.14 | Pennal | 231.82 |
| Y Felinheli | 1,165.68 | Penrhyndeudraeth | 792.98 |
| Ffestiniog | 1,786.14 | Pentir | 1,272.62 |
| Y Ganllwyd | 88.69 | Pistyll | 264.01 |
| Harlech | 821.55 | Porthmadog | 2,160.67 |
| Llanaelhaearn | 466.26 | Pwllheli | 1,779.02 |
| Llanbedr | 351.64 | Talsarnau | 343.74 |
| Llanbedrog | 780.02 | Trawsfynydd | 506.49 |
| Llanberis | 788.78 | Tudweiliog | 478.76 |
| Llandwrog | 1,051.46 | Tywyn | 1,691.37 |
| Llandygai | 1,001.64 | Waunfawr | 569.37 |

**sef y symiau a gyfrifwyd fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**3. Bod y symiau a ganlyn yn cael eu cyfrifo yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2022/23 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf:-**

| | | |
|---|---|---|
| **(a)** | **£443,927,600** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf (gwariant gros).** |
| **(b)** | **£146,536,120** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf (incwm).** |
| **(c)** | **£297,391,480** | **Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn (cyllideb net).** |
| **(ch)** | **£212,714,737** | **Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.** |
| **(d)** | **£1,576.40** | **Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3(ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33(1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn (treth Cyngor Gwynedd a threth cyfartalog cynghorau cymuned).** |
| **(dd)** | **£2,654,323.06** | **Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf (praeseptau'r cynghorau cymuned).** |
| **(e)** | **£1,526.99** | **Sef y swm yn 3(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3(dd) uchod â'r swm yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Cyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol (Band D ar gyfer treth Cyngor Gwynedd yn unig).** |

**(f) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor –**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Aberdaron** | **1,553.25** | **Llanddeiniolen** | **1,544.27** |
| **Aberdyfi** | **1,562.10** | **Llandderfel** | **1,544.93** |
| **Abergwyngregyn** | **1,559.06** | **Llanegryn** | **1,563.45** |
| **Abermaw (Barmouth)** | **1,579.04** | **Llanelltyd** | **1,551.27** |
| **Arthog** | **1,546.86** | **Llanengan** | **1,551.01** |
| **Y Bala** | **1,561.54** | **Llanfair** | **1,574.67** |
| **Bangor** | **1,627.98** | **Llanfihangel y** | **1,576.54** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Pennant | |
| **Beddgelert** | **1,579.56** | **Llanfrothen** | **1,566.90** |
| **Betws Garmon** | **1,545.79** | **Llangelynnin** | **1,550.70** |
| **Bethesda** | **1,601.16** | **Llangywer** | **1,556.24** |
| **Bontnewydd** | **1,569.38** | **Llanllechid** | **1,572.27** |
| **Botwnnog** | **1,541.12** | **Llanllyfni** | **1,562.06** |
| **Brithdir a Llanfachreth** | **1,553.21** | **Llannor** | **1,549.06** |
| **Bryncrug** | **1,565.45** | **Llanrug** | **1,594.68** |
| **Buan** | **1,543.44** | **Llanuwchllyn** | **1,571.19** |
| **Caernarfon** | **1,586.51** | **Llanwnda** | **1,563.27** |
| **Clynnog Fawr** | **1,569.51** | **Llanycil** | **1,548.91** |
| **Corris** | **1,557.50** | **Llanystumdwy** | **1,547.72** |
| **Criccieth** | **1,578.39** | **Maentwrog** | **1,546.94** |
| **Dolbenmaen** | **1,555.81** | **Mawddwy** | **1,556.48** |
| **Dolgellau** | **1,587.35** | **Nefyn** | **1,578.78** |
| **Dyffryn Ardudwy** | **1,588.18** | **Pennal** | **1,562.79** |
| **Y Felinheli** | **1,566.45** | **Penrhyndeudraeth** | **1,579.32** |
| **Ffestiniog** | **1,655.76** | **Pentir** | **1,570.21** |
| **Y Ganllwyd** | **1,560.82** | **Pistyll** | **1,572.44** |
| **Harlech** | **1,612.19** | **Porthmadog** | **1,555.95** |
| **Llanaelhaearn** | **1,580.61** | **Pwllheli** | **1,577.58** |
| **Llanbedr** | **1,569.65** | **Talsarnau** | **1,590.99** |
| **Llanbedrog** | **1,557.76** | **Trawsfynydd** | **1,566.48** |
| **Llanberis** | **1,570.09** | **Tudweiliog** | **1,541.61** |
| **Llandwrog** | **1,593.56** | **Tywyn** | **1,580.40** |
| **Llandygai** | **1,555.31** | **Waunfawr** | **1,548.07** |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3(e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2(b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34(3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

**(ff) Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3(f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36(1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

**4. Nodi ar gyfer y flwyddyn 2022/23 fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 211.20 | 246.40 | 281.60 | 316.80 | 387.20 | 457.60 | 528.00 | 633.60 | 739.20 |

**Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3(ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2022/23 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

**10. STRATEGAETH GYFALAF 2022-23 (YN CYNNWYS STRATEGAETHAU BUDDSODDI A BENTHYCA)**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid, y Cynghorydd Ioan Thomas, adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel ar y modd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheolaeth trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol. 'Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi trosolwg o sut y rheolir risgiau cysylltiedig, a'r goblygiadau i gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2022/23.**

**11. ADRODDIAD DRAFFT ASESIAD O ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU 2022**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cynghorydd Dafydd Meurig, adroddiad yn rhoi trosolwg, ac yn ceisio cefnogaeth y Cyngor llawn ar gyfer cymeradwyo'r Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022, a luniwyd fel gofyniad dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ymhelaethodd y Rheolwr Tim Prosiectau Oedolion, Iechyd a Llesiant ymhellach ar gynnwys yr adroddiad.

Holodd y Cynghorydd Gwynfor Owen a ddylai ddatgan buddiant gan iddo wneud defnydd o Wasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru yn ddiweddar, a'i fod hefyd yn ymwneud â materion eraill o fewn y maes. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro fod yr aelod o fewn ei hawliau gan mai adroddiad o asesiad cyffredinol ar gyfer Gogledd Cymru oedd dan sylw.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd y deellid bod hon yn ddogfen fyw, a holwyd pa mor sydyn y byddai'n gallu cael ei newid. Mewn ymateb, eglurwyd bod y ddogfen gerbron yn fersiwn fyddai'n cael ei chymeradwyo gan y Cyngor heddiw, gobeithio, a gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ymhellach ymlaen yn y mis, cyn ei hanfon ymlaen at y Llywodraeth a'i chyhoeddi. Roedd y swyddogion yn gwneud gwaith mwy manwl ar fanylion ac anghenion Gwynedd, felly gellid addasu unrhyw beth fel rhan o'r gwaith hwnnw. Byddai'r ddogfen hefyd yn cael ei hadolygu ymhen 5 mlynedd, ond byddai'r swyddogion yn gwneud gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw hefyd. Nodwyd y byddai dogfen Gwynedd yn asesiad ar wahân, nad oedd ynghlwm wrth unrhyw ddyddiad cyhoeddi statudol, a honno fyddai'r gwir ddogfen fyw fyddai ar gael i'w haddasu ac ychwanegu ati o ddydd i ddydd.
- Mynegwyd pryder na chafodd yr aelodau ond 5 diwrnod i ddarllen y ddogfen 450 tudalen yma, a holwyd sut bod modd iddynt graffu'r mater a gofyn cwestiynau manwl. Awgrymwyd hefyd, gan mai unwaith yn unig y gall aelodau siarad ar fater yn y Cyngor llawn, bod materion pwysig yn cael eu gwthio drwodd heb drafodaeth. Cwestiynwyd hefyd pa mor werthfawr fyddai dogfen o'r maint yma i bobl Gwynedd. O ran y sylwadau ynglŷn â'r ddogfen 'fyw', nodwyd bod yr aelodau wedi clywed o'r blaen am bethau felly, ac wedi darganfod yn nes ymlaen nad oedd modd newid y dogfennau hynny am flynyddoedd. Pryderid hefyd y bydd y Cyngor newydd yn cael clywed nad oes modd iddynt newid y ddogfen, gan fod y Cyngor blaenorol wedi ei

mabwysiadu, a galwyd ar yr Aelod Cabinet a'r swyddogion i fod yn fwy ystyriol o hyn allan.
- Nodwyd bod y Pwyllgor Craffu Gofal wedi craffu'r mater hwn, ac wedi cefnogi a chydymdeimlo â'r swyddogion, oedd wedi gorfod paratoi'r dogfennau mewn amser byr iawn.

I gloi, nododd yr Aelod Cabinet:-

- Bod y swyddogion wedi cyflawni gwaith arwrol o fewn amserlen hynod o dynn, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth.
- Y gofynnwyd i'r Llywodraeth ganiatáu ychydig mwy o amser oherwydd y pandemig, ond na roddwyd y caniatâd hwnnw.

Nododd y Cadeirydd ei fod yntau o'r farn ei bod yn amhosib' i'r aelodau graffu adroddiad mor swmpus o fewn 5 diwrnod, a gofynnodd i'r Aelod Cabinet gymryd y sylwadau i ystyriaeth a'u pasio ymlaen.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022.**

## 12. ADRODDIAD ADOLYGU – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Eglurodd y Cadeirydd mai adroddiad ar y cam nesaf o'r broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol oedd gerbron, ac nid cyfle i gael trafodaeth ar bolisïau cynllunio unigol. Eglurodd, petai'r Cyngor yn cytuno i symud ymlaen i gynnal adolygiad llawn o'r cynllun presennol, yna byddai sawl cyfle i gael mewnbwn i bolisïau unigol a thrafod meysydd penodol yn nes ymlaen.

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Amgylchedd, y Cynghorydd Gareth Griffith, adroddiad yn ceisio cytundeb y Cyngor llawn i gyhoeddi'r Adroddiad Adolygu a'i yrru ymlaen i Lywodraeth Cymru, er mwyn gallu symud ymlaen gyda'r gwaith o baratoi Cynllun Diwygiedig.

Ymhelaethodd y Pennaeth Cynorthwyol - Amgylchedd ymhellach ar gynnwys yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelod unigol:-

- Nodwyd bod llawer o waith wedi mynd i mewn i'r adroddiad, a diolchwyd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion fu ynghlwm â hyn.
- Mynegwyd y farn bod yr ieithwedd a'r fiwrocratiaeth ynghlwm â'r ddogfen yn anhygoel ac yn anghredadwy, a bod yr holl drefn gynllunio mor gymhleth, fel nad ydi'r mwyafrif o bobl, gan gynnwys aelodau etholedig, yn deall yn iawn beth sy'n mynd ymlaen. Awgrymwyd y gellid defnyddio'r gwaith ymgynghorol diwethaf fel enghraifft o hynny, gan mai 5 aelod yn unig oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad hollbwysig hwn.
- Gresynwyd nad oedd y swyddogion o'r farn bod yr un o'r agos at 80 o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio ar gyfer arbed yr iaith Gymraeg yn amlygu bod niwed yn cael ei wneud i'r iaith, a'i bod yn ymddangos, heb Brexit a Covid, na fyddai yna unrhyw newidiadau yn cael eu crybwyll o gwbl.
- Mynegwyd pryder ynglŷn a beth yn union sy'n cael ei gyflwyno, a beth yn union fydd yn dod yn ôl wedyn gan Lywodraeth Cymru, ac yn waeth na hynny, pryderid yn fawr mai'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fydd yn ymdrin ag unrhyw newidiadau.
- Nodwyd, yn 2017, y bu i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd roi sêl bendith i ddod â'r cynllun gerbron y Cyngor, a chafodd ei basio yno o drwch blewyn. Y cwbl y gallai'r

aelodau wneud ar y pryd oedd ei ganiatáu neu ei wrthod, ac nid oedd modd gofyn am fwy o amser er mwyn i'r aelodau newydd ar y pryd gael cyfle i drafod y polisïau.

- Nodwyd ein bod yn gweld, dro ar ôl tro, bod y polisïau cynllunio yn gweithio yn groes i ddymuniad yr aelodau i geisio gwarchod ein cymunedau Cymraeg, a phryderid, pan ddaw'r ymateb gan Lywodraeth Cymru, na fydd yr aelodau newydd yn deall pwysigrwydd nac arwyddocâd hyn.
- Nodwyd dymuniad i ddiddymu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fel bod Cyngor Gwynedd yn gweithredu ar ei ben ei hun, ond pryderid na fyddai hynny'n digwydd, er bod yr holl dystiolaeth yn amlygu bod yna wahaniaeth mawr rhwng ein dymuniadau ni yng Ngwynedd a dymuniadau Môn.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nododd yr Aelod Cabinet:-

- Y trefnwyd sesiynau i'r aelodau, lle roedd yr Adran Bolisi Cynllunio yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'r rhan yma o'r adolygiad, a phetai'r Cyngor yn penderfynu ei basio ymlaen i Gaerdydd, byddai'r gwaith caled yn digwydd ar ôl yr Etholiadau ym mis Mai.
- Y byddai'r gwaith yn parhau a bod yr Adran wedi datgan eu parodrwydd i wrando, cynnal mwy o sesiynau ac ymgynghori.

Ategwyd sylwadau'r siaradwr blaenorol gan aelodau eraill, a nododd:-

- Na chafodd yr aelodau ond 5 diwrnod i ddarllen y ddogfen 152 tudalen yma, a holwyd sut bod modd iddynt graffu a chymeradwyo'r adroddiad, yn enwedig â ninnau bron 4 awr i mewn i'r cyfarfod hwn.
- Bod y pethau yma yn cael eu dympio arnom ac yn cael eu gwthio drwodd, a diau y bydd y Cyngor newydd yn cael clywed nad oes modd iddynt newid y ddogfen gan i'r Cyngor blaenorol ei mabwysiadu.
- Y dywedwyd wrth yr aelodau yn 2017 bod hon yn ddogfen 'fyw', ond cafwyd ar ddeall yn ddiweddarach nad oedd modd ei newid am 3.5 mlynedd.
- Nad yw anfon y cynllun hwn at y Llywodraeth fel ag y mae yn gwneud dim ond cadarnhau'r status quo, a dylem feddwl y tu allan i'r bocs a bod yn chwyldroadol.
- Nad oedd nifer o'r pwyntiau a gododd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, ac sy'n greiddiol i'n gweledigaeth, sef yr iaith Gymraeg, tai fforddiadwy i bobl leol, tai marchnad leol, ail-gartrefi a thai haf, twristiaeth a gor-dwristiaeth, y Ddeddf Llesiant, ayb, yn rhan o'r hyn sy'n cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth, a gofynnwyd am sicrwydd nad oedd cymeradwyo'r argymhelliad yn cau allan unrhyw drafodaeth lawn a manwl ar yr holl faterion hyn.
- Y pryderid mai'r oll fyddwn yn wneud drwy fabwysiadu'r argymhelliad fydd cadarnhau'r hyn y pleidleisiwyd drosto, o un bleidlais, yn 2017, gyda rhai mân newidiadau'n unig.
- Bod y cwestiwn o wahanu oddi wrth Fôn yn gwestiwn y bydd yn rhaid i'r Cyngor newydd ei ystyried yn ddifrifol iawn.

Holwyd a oedd cymeradwyo'r argymhelliad yn clymu'r Cyngor i gynllun lleol ar y cyd yn y dyfodol. Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd y drefn bresennol o gydweithio gyda Môn dan drafodaeth o gwbl yn y cyfarfod hwn. Petai dymuniad i wneud penderfyniad gwahanol ar hynny, roedd yr hawl yno, a gallai'r Cyngor drafod hynny yn y dyfodol. Nodwyd ymhellach mai briff y Cyngor llawn oedd eu bod yn dymuno gweld adolygiad llawn o'r cynllun, a bod hynny'n digwydd yn sydyn, a'r cam cyntaf er mwyn caniatáu i hynny ddigwydd fyddai cytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Adolygu a'i anfon at Lywodraeth Cymru.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau, nododd aelod unigol:-

- Na welid sut bod cael adolygiad llawn o'r cynllun yn gallu cadarnhau'r status quo mewn unrhyw ffordd.
- Ei fod yn siomedig ynglŷn â'r honiad nad oedd aelodau etholedig yn deall y drefn gynllunio, ac yn gweld hynny fel sarhad.
- Bod rhai o'r farn bod y 3.5 mlynedd mae'n mynd i gymryd i adolygu'r cynllun yn ormod o amser, ac y byddai'n well cael modd o gyflymu hynny, ond rhaid cofio bod y Cyngor wedi pasio hynny fel egwyddor ac wedi ysgrifennu at y Llywodraeth i ofyn am gyflymu'r broses, ond bod y Llywodraeth wedi dweud nad oedd hynny'n bosib'.
- Nad oedd hynny'n cau allan y drafodaeth, ond yn hytrach yn ei hagor, a byddai'r pwyntiau pwysig a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu trafod yn fanwl dros y blynyddoedd nesaf.

Yn ei sylwadau cloi, nododd yr Aelod Cabinet:-

- Er derbyn y sylw ynglŷn â maint y ddogfen, bod yr adroddiad wedi bod ar gael ar wefan y Cyngor ers rhaid wythnosau, ond bod rhaid mynd i chwilio amdano.
- Ei fod yn siomedig bod cyn lleied o aelodau wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyntaf, ac erfyniodd ar bawb i gymryd rhan yn yr ail ymgynghoriad yn dilyn yr Etholiad.
- Y byddai'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf yn cael eu hystyried yn yr ail ymgynghoriad, ac felly nad oedd angen cyflwyno'r un sylwadau ddwywaith.

**PENDERFYNWYD cytuno i gyhoeddi'r Adroddiad Adolygu yn Atodiad 1 i'r adroddiad a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, fel y gellir cychwyn ar y broses o baratoi Cynllun Diwygiedig.**

## 13. ARGYMHELLIAD PANEL CYFWELD – PENODI AELODAU LLEYG O'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynodd Cadeirydd y Panel Cyfweld, y Cynghorydd John Pughe Roberts, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor llawn dderbyn argymhelliad y panel i benodi Mr Hywel Eifion Jones, Mrs Sharon Warnes, Mr Elwyn Rhys Parry a Mrs Clare Hitchcock fel aelodau lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o 5 mlynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Mynegwyd siomedigaeth bod cyn lleied wedi ymgeisio am y rôl.
- Awgrymwyd y byddai wedi bod o ddiddordeb i'r Cyngor gael ychydig mwy o wybodaeth gefndirol ynglŷn â'r 4 person yr argymhellid eu penodi. Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro y dilynwyd y drefn arferol, a bod angen i'r Cyngor fod yn fodlon bod y panel cyfweld wedi dilyn y meini prawf ar gyfer penodi, ac wedi cyflwyno argymhellion sy'n cyd-fynd â'r meini prawf hynny.

Cadarnhaodd Cadeirydd y Panel Cyfweld fod y panel yn hollol hapus gyda'r 4 person yma.

**PENDERFYNWYD penodi Mr Hywel Eifion Jones, Mrs Sharon Warnes, Mr Elwyn Rhys Parry a Mrs Clare Hitchcock fel Aelodau Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am gyfnod o 5 mlynedd.**

## 14. AIL-BENODI AELODAU ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

Datganodd y Cynghorydd Gwynfor Owen fuddiant personol oherwydd ei fod, yn ei fusnes cyfieithu, yn gwneud llawer iawn o waith i Mr Aled Jones.

Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad yn nodi fod tymor aelodaeth Mr Aled Jones, aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, yn dod i ben, ac yn argymell i'r Cyngor ei ail-benodi i wasanaethu am dymor pellach o bedair blynedd.

Nodwyd, fel aelod presennol o'r Pwyllgor Safonau, bod gwybodaeth ynglŷn â Mr Aled Jones ar gael yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau.

Mynegodd aelod ei anfodlonrwydd na chyflwynwyd unrhyw wybodaeth gefndirol ynglŷn â'r person yma, a phwysleisiodd yr angen am ddidwylledd a thryloywder, gan nodi bod angen edrych ar sut mae'r penodiadau hyn yn cael eu gwneud.

Nododd y Cadeirydd ei fod ar ddeall bod y person yma wedi bod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau, ac wedi gwneud gwaith clodwiw yn y gorffennol.

**PENDERFYNWYD ail-benodi Mr Aled Jones fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i wasanaethu am dymor pellach o 4 blynedd.**

## 15. CALENDR PWYLLGORAU 2022-23

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2022/23.

